# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)14-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Mai 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Cynghorydd Cyfreithiol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)13-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 6 Mai 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)14-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ynglŷn â Grant Ad-dalu'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Trafododd y Pwyllgor y Cyfnod Pleidleisio a chytunwyd na ddylai ddigwydd cyn 4.30pm ddydd Mawrth ar gyfer busnes y Llywodraeth a dydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth. Nododd y Pwyllgor mai hwn fydd y tro cyntaf i'r Cyfnod Pleidleisio gael ei gynnal ar ddydd Mawrth.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefniant busnes ar gyfer 13 ac 14 Mai 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)14-08(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf- BC(3)14-08(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y dadleuon a ganlyn yn yr amserlen busnes heblaw busnes y Llywodraeth

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon mewn Trafnidiaeth ar 4 Mehefin.

Dadl ar Orchymyn Arfaethedig Peter Black - Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol ar 11 Mehefin.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais am gyfarfod ychwanegol gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - BC(3)14-08(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnal cyfarfod ffurfiol ddydd Mawrth 3 Mehefin yn dilyn y Cyfarfod Llawn, i fwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â Mesur arfaethedig i sefydlu rôl statudol y Comisiynydd Safonau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes â'r cais.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**